

Siart Lif Polisi a Threfn Cyfnod Penodol

Gellir gwneud cais i newid o gontract cyfnod penodol i gontract parhaol mewn dwy ffordd:

Pan fydd contract tymor penodol yn cael ei adnewyddu neu ei ymestyn ar neu ar ôl gwasanaeth di-dor o 4 blynedd gall y rheolwr ofyn am gontract parhaol

Pan fydd aelod staff sydd wedi gwneud dros 4 blynedd o wasanaeth di-dor yn credu y dylai'r contract gael ei newid i un parhaol oherwydd nad oes unrhyw un o'r cyfiawnhad gwrthrychol ym mharagraff 3.0 o'r Drefn yn berthnasol.

Paratoi achos yn gofyn am gontract parhaol

- cynnwys manylion am y gwasanaeth di-dor
- egluro'r sail resymegol am y cais/ anghenion busnes i'r dyfodol
- egluro sut caiff y swydd ei hariannu yn y dyfodol.

Cymeradwyo

Dylai ceisiadau am gontract parhaol sydd wedi'u cefnogi gael eu cofnodi yn Agresso gan y rheolwr neu weinyddwr yr adran gyda'r achos yn gofyn am gontract parhaol, yn cynnwys y sail resymegol a'r trefniadau cyllido i'r dyfodol ynghlwm.

Cymeradwyo

Dylai ceisiadau am gontract parhaol sydd wedi'u cefnogi gael eu cofnodi yn Agresso gan y rheolwr neu weinyddwr yr adran gyda'r achos yn gofyn am gontract parhaol, yn cynnwys y sail resymegol a'r trefniadau cyllido i'r dyfodol ynghlwm.

Bydd Adnoddau Dynol yn cyhoeddi atodiad i'r contract cyflogaeth.